DEDDF CYNLLUNIO (DARPARIAETHAU CANLYNIADOL) (CYMRU) 2026

NODIADAU ESBONIADOL

CYFLWYNIAD

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn ar gyfer Deddf Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru) 2026 (y cyfeirir ati yn y Nodiadau hyn fel "y Ddeddf Darpariaethau Canlyniadol" neu "y Ddeddf hon") a basiwyd gan Senedd Cymru ar 10 Mawrth 2026, ochr yn ochr â Deddf Cynllunio (Cymru) 2026 ("y brif Ddeddf"). Cafodd y ddwy Ddeddf y Cydsyniad Brenhinol ar 27 Ebrill 2026. Mae'r Nodiadau Esboniadol yn ymwneud â'r Ddeddf fel y cafodd y Cydsyniad Brenhinol.[1] Dylid eu darllen ar y cyd â'r Ddeddf hon ond nid ydynt yn rhan ohoni.

2. Nid yw'r Nodiadau hyn yn darparu disgrifiad cynhwysfawr o gynnwys y Ddeddf Darpariaethau Canlyniadol. Os ymddengys nad oes angen rhoi esboniad neu sylw ar ddarpariaeth, nis rhoddir.

3. Dylid cymryd bod cyfeiriadau yn y Nodiadau hyn at "ddiwygiadau" yn cynnwys diddymiadau.

SYLWADAU AR YR ADRANNAU

Adran 2 – Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol a diddymiadau

4. Mae adran 2 yn cyflwyno Atodlenni 1 i 4 sydd gyda'i gilydd yn nodi'r diwygiadau niferus i ddarnau eraill o ddeddfwriaeth sy'n angenrheidiol oherwydd deddfu'r brif Ddeddf. Maent hefyd yn cynnwys nifer bach o ddiwygiadau o'r fath sy'n deillio o ddeddfu Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 (dsc 3).

5. Mae Atodlen 1 yn cynnwys diwygiadau i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (p. 8) ("Deddf 1990"); ac mae Atodlen 2 yn cynnwys diwygiadau i Ddeddfau eraill gan Senedd y DU. Mae Atodlen 3 yn cynnwys diwygiadau i Fesurau Cynulliad a Deddfau gan Senedd Cymru. Mae Atodlen 4 yn cynnwys diwygiadau i ddeddfwriaeth arall.

[1] Gellir nodi newidiadau a wnaed i'r Ddeddf ers iddi gael y Cydsyniad Brenhinol drwy ddefnyddio'r cyfleuster "Newidiadau i Ddeddfwriaeth" yn www.legislation.gov.uk/cy/changes

6. Mae rhai o'r diwygiadau yn Atodlenni 1 i 3 wedi eu drafftio er mwyn ystyried deddfwriaeth nad yw mewn grym eto. Mae hyn yn codi'n bennaf pan fo'r ddarpariaeth sy'n cael ei diwygio ei hun i'w diwygio gan Ddeddf arall, megis Deddf Ffyniant Bro ac Adfywio 2023 (p. 55) neu Ddeddf Cynllunio a Seilwaith 2025 (p. 34). Mewn rhai achosion, bydd angen gwneud diwygiadau gwahanol i ddarpariaeth o ganlyniad i'r brif Ddeddf, yn dibynnu ar ba un a yw diwygiad a wnaed i'r ddarpariaeth honno gan Ddeddf arall wedi ei ddwyn i rym ai peidio. Yn yr achosion hynny, mae Atodlenni 1 i 3 yn cynnwys diwygiadau amgen ar gyfer pob senario. Pan gaiff y darpariaethau yn yr Atodlenni hyn eu dwyn i rym, dim ond y diwygiad sy'n ofynnol ar yr adeg honno fydd yn cymryd effaith.

Atodlen 1 – Diwygiadau i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990

7. Ar ôl i'r brif Ddeddf ddod i rym, ni fydd Deddf 1990 yn gymwys o ran Cymru mwyach. Yn unol â hynny, mae Atodlen 1 yn diddymu'r darpariaethau nad ydynt ond yn gymwys yng Nghymru, ac a fydd yn cael eu disodli'n gyffredinol gan ddarpariaethau cyfatebol yn y brif Ddeddf. At hynny, mae'r Atodlen hon yn diwygio darpariaethau yn Neddf 1990 sy'n gymwys ar hyn o bryd o ran Cymru a Lloegr, er mwyn sicrhau bod y darpariaethau hynny (yn ogystal â'r darpariaethau Lloegr yn unig yn y Ddeddf honno) yn parhau i weithredu'n gywir o ran Lloegr.

Atodlen 2 – Diwygiadau i Ddeddfau eraill gan Senedd y Deyrnas Unedig

8. Mae Atodlen 2 i'r Ddeddf hon yn cynnwys diwygiadau i Ddeddfau gan Senedd y DU ac eithrio Deddf 1990 sy'n angenrheidiol o ganlyniad i'r brif Ddeddf.

9. Mae nifer o ddarnau eraill o ddeddfwriaeth y DU sy'n cynnwys darpariaethau ynghylch cynllunio yng Nghymru sy'n cael eu disodli gan ddarpariaethau yn y brif Ddeddf. Mae rhai o'r darpariaethau hynny yn gymwys yng Nghymru yn unig ac yn cael eu diddymu gan Atodlen 2 i'r Ddeddf hon. Er enghraifft, mae Rhan 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (p. 5) ("Deddf 2004"), sy'n ymdrin â chynlluniau datblygu yng Nghymru, yn cael ei disodli gan Ran 2 o'r brif Ddeddf ac yn cael ei diddymu gan Atodlen 2 i'r Ddeddf hon. Mae darpariaethau eraill ynghylch cynllunio sy'n gymwys ar hyn o bryd yng Nghymru a Lloegr, a byddant yn parhau i fod yn gymwys yn Lloegr. Er enghraifft, mae Rhan 11 o Ddeddf Cynllunio 2008 (p. 29) ("Deddf 2008"), sy'n ymwneud â'r Ardoll Seilwaith Cymunedol, yn cael ei disodli gan Bennod 2 o Ran 6 o'r brif Ddeddf. Mae Atodlen 2 i'r Ddeddf hon yn diwygio Rhan 11 i sicrhau nad yw bellach yn gymwys yng Nghymru a'i bod yn parhau i weithredu'n gywir yn Lloegr.

10. Ceir llawer o gyfeiriadau mewn darnau eraill o ddeddfwriaeth y DU at Ddeddf 1990, ac at y darpariaethau cynllunio yn Neddf Cynllunio a Digolledu 1991 (p. 34), Deddf yr Amgylchedd 1995 (p. 25), Deddf 2004 a Deddf 2008. Mae Atodlen 2 i'r Ddeddf hon yn gwneud y diwygiadau sydd eu hangen i sicrhau y bydd y cyfeiriadau hynny yn y dyfodol yn cyfeirio at y darpariaethau priodol yn y brif Ddeddf o ran Cymru, wrth barhau i weithredu'n gywir o ran Lloegr.

11. Mae rhai o'r diwygiadau yn yr Atodlen hon yn sicrhau bod deddfwriaeth arall yn adlewyrchu newidiadau o ran dull neu derminoleg yn y brif Ddeddf, megis y penderfyniad i gyfeirio drwy gydol y Ddeddf honno at yr "awdurdod cynllunio" yn lle'r termau "awdurdod cynllunio lleol", "awdurdod cynllunio mwynau" ac "awdurdod sylweddau peryglus", a ddefnyddid mewn deddfwriaeth gynllunio hyd yn hyn. Mae'r defnydd o'r term "awdurdod cynllunio" yn adlewyrchu'r ffaith bod Cymru wedi bod â system unedol o lywodraeth leol ers rhai blynyddoedd, ac mae'n unol ag argymhelliad 5-13 gan Gomisiwn y Gyfraith yn ei adroddiad *Cyfraith Cynllunio yng Nghymru*.

12. Mae Atodlen 2 yn gwneud nifer o ddiwygiadau eraill i gywiro camgymeriadau mewn deddfwriaeth gynharach, i osgoi dyblygu neu i ddiddymu darpariaethau nad oes eu hangen mwyach. Mae'r diwygiadau hynny'n cael eu hegluro yn Nodiadau'r Drafftwyr ar gyfer y Ddeddf (y ddogfen sy'n dwyn yr enw "Esboniad o newidiadau a wneir o fewn Deddf Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru) 2026 i ddarpariaethau presennol").

Atodlen 3 – Diwygiadau i Fesurau Cynulliad a Deddfau gan Senedd Cymru

13. Mae Atodlen 3 i'r Ddeddf Darpariaethau Canlyniadol yn cynnwys diwygiadau i amryw Fesurau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Deddfau gan Senedd Cymru sy'n angenrheidiol o ganlyniad i ddeddfu'r brif Ddeddf.

14. Yn benodol, gwnaeth Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 (dccc 4) nifer o ddiwygiadau i amryw ddarpariaethau drwy gydol Deddf 1990 a Rhan 6 o Ddeddf 2004. Caiff y darpariaethau hynny, ar eu ffurf ddiwygiedig, eu disodli'n gyffredinol gan ddarpariaethau cyfatebol yn y brif Ddeddf. Yn unol â hynny, caiff Deddf 2015 ei diddymu i raddau helaeth gan Atodlen 3 i'r Ddeddf hon. Fodd bynnag, bydd rhai darpariaethau yn y Ddeddf honno yn parhau i fod mewn grym, am eu bod yn diwygio deddfiadau eraill (er enghraifft, Deddf Tiroedd Comin 2006 (p. 26)).

15. Mae Atodlen 3 hefyd yn cynnwys nifer o ddiwygiadau i gywiro camgymeriadau yn Neddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 neu ei gwneud yn gyson â'r brif Ddeddf. Mae'r diwygiadau hynny'n cael eu hegluro yn Nodiadau'r Drafftwyr ar gyfer y Ddeddf hon.

Atodlen 4 – Newidiadau i ddeddfwriaeth arall

16. Mae Atodlen 4 yn cynnwys diwygiadau i:

    a. tri Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor, a wnaed o dan Ddeddfau Llywodraeth Cymru 1998 a 2006, a oedd yn datganoli swyddogaethau cynllunio o ran Cymru; a

    b. tri Mesur gan Eglwys Loegr sy'n parhau i fod yn gymwys i'r nifer bach o blwyfi Eglwys Loegr sydd yn gyfan gwbl neu'n rhannol yng Nghymru.

Adran 3 – Darpariaethau trosiannol a darpariaethau arbed
Atodlen 5 – Darpariaethau trosiannol a darpariaethau arbed

17. Mae adran 3 yn cyflwyno Atodlen 5 sy'n cynnwys y darpariaethau trosiannol a'r darpariaethau arbed sydd eu hangen i sicrhau bod y gyfraith yn parhau i weithredu'n ddidrafferth wrth i'r brif Ddeddf gael ei dwyn i rym, a bod y system gynllunio'n gweithredu'n ddi-dor yng Nghymru a Lloegr.

Adran 4 – Pŵer i wneud darpariaeth bellach mewn cysylltiad â'r brif Ddeddf

18. Ar ben y darpariaethau yn Atodlenni 1 i 4 i'r Ddeddf hon, caiff Gweinidogion Cymru ddeddfu darpariaethau pellach sy'n ddeilliadol neu'n atodol i'r brif Ddeddf neu'r Ddeddf hon, neu sy'n ganlyniadol arnynt. Cânt hefyd ddeddfu darpariaethau trosiannol neu ddarpariaethau arbed pellach yn ychwanegol at y rhai yn Atodlen 5.

19. Bydd y darpariaethau pellach hynny mewn rheoliadau a wneir drwy offeryn statudol Cymreig. Caiff y rheoliadau hynny ddiwygio unrhyw ddeddfiad; ond os ydynt yn diwygio, yn diddymu neu'n dirymu unrhyw ddarpariaeth mewn darn o ddeddfwriaeth sylfaenol, mae'r rheoliadau yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd (is-adrannau (2) a (3)). Fel arall, maent yn ddarostyngedig i weithdrefn annilysu'r Senedd (is-adran (4)).

Adran 5 – Dod i rym

20. Ac eithrio nifer bach o ddiwygiadau a fydd yn dod i rym y diwrnod ar ôl y Cydsyniad Brenhinol, bydd adrannau 2 a 3 ac Atodlenni 1 i 5 yn dod i rym ar y dyddiad a bennir gan un neu ragor o orchmynion a wneir gan Weinidogion Cymru.

Adran 6 – Enw byr

21. Mae adran 6 yn nodi enw byr y Ddeddf, y gellir ei ddefnyddio wrth enwi'r Ddeddf ac wrth gyfeirio ati. Caniateir defnyddio naill ai enw Cymraeg neu enw Saesneg y Ddeddf, gan gynnwys fel cyfeiriad mewn deddfiadau eraill.

COFNOD Y TRAFODION YN Y SENEDD

22. Mae'r tabl a ganlyn yn nodi'r dyddiadau ar gyfer pob cyfnod o hynt y Ddeddf drwy'r Senedd. Gellir cael Cofnod y Trafodion a rhagor o wybodaeth am hynt y Bil hwn ar wefan Senedd Cymru ar: **Bil Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru)**.

Cyfnod	*Dyddiad*
Cyflwynwyd	15 Medi 2025
Yr Ystyriaeth Gychwynnol – Dadl	16 Rhagfyr 2025
Ystyriaeth Fanwl gan y Pwyllgor	19 Ionawr 2026
Y Cyfnod Terfynol	10 Mawrth 2026
Y Cydsyniad Brenhinol	27 Ebrill 2026